**Y CABINET**
**16 IONAWR 2024**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ar Zoom ddydd Mawrth 16 Ionawr 2024.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Mared Eastwood, Dave Healey, Dave Hughes, Paul Johnson a Christine Jones.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Corfforaethol – Rhaglen Gyfalaf ac Asedau, Rheolwr Corfforaethol – Pobl a Datblygu Sefydliadol, Rheolwr Refeniw a Chaffael, Rheolwr Gweithredol y Gogledd a Goleuadau Stryd, Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd, Rheolwr Cludiant ac Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Roz Mansell ac Andrew Parkhurst.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Chris Bithell a Billy Mullin.

## 100. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 101. COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Bod cofnodion y cyfarfod yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## 102. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2024/25 SETLIAD DROS DRO LLYWODRAETH LEOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y prif benawdau ac effeithiau ariannol Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol Cymru a rhoi diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar yr ystod o ddatrysiadau cyllideb sydd ar gael i'r Cyngor i osod cyllideb gyfreithiol a chytbwys ym mis Chwefror.

Roedd crynodeb o'r prif benawdau wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ac roedd yn cael effaith o gynyddu'r 'bwlch yn y gyllideb' i £12.946miliwn. Roedd Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Sir y Fflint yn hynod siomedig ac roedd yn cyflwyno her gynyddol i sefyllfa ariannol sydd eisoes yn anodd iawn yn barod.

Roedd angen paratoi cynigion cyllideb terfynol manwl nawr ar gyfer eu hystyried a'u craffu gan yr Aelodau a byddai cynigion penodol yn cael eu hystyried gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol o fis Chwefror.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y setliad gan Lywodraeth Cymru yn siomedig a oedd wedi arwain at yr angen i adolygu nifer o ragdybiaethau cynllunio a rhagolygon cyn y Cyngor Sir ym mis Chwefror.

Roedd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yn cadarnhau trefniadau briffio Aelodau o 22 Ionawr a 25 a drefnwyd i roi cyfle i'r Aelodau ystyried y cynigion ar gyfer y gyllideb yn gyffredinol cyn y cyfarfodydd Trosolwg a Chraffu.

Dywedodd y Cynghorydd Roberts fod datganiad cadarn wedi cael ei gyflwyno yn dilyn y setliad siomedig. Eglurodd fod cyfarfod wedi cael ei gynnal gyda'r Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr y noson gynt i amlinellu'r cynigion fyddai'n cael eu gwneud.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi goblygiadau ariannol Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol Cymru a'r gwaith sydd ar ôl i'w gwblhau cyn cytuno ar gyfres o argymhellion i'r Cyngor i osod cyllideb gyfreithiol a chytbwys ar 20 Chwefror (a fydd yn destun ystyriaeth flaenorol a sylwadau gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu).

## 103. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR BERFFORMIAD CYNLLUN Y CYNGOR 2023/24

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad oedd yn cyflwyno crynodeb o berfformiad cynnydd yn erbyn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a nodwyd ar gyfer sefyllfa canol blwyddyn 2023/24.

Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar eithriadau oedd yn canolbwyntio ar feysydd
perfformiad nad oedd yn cyflawni eu targed sefyllfa canol blwyddyn ar hyn o bryd.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys cynnydd yn erbyn y camau a'r mesurau oedd yn cael eu monitro a'u diweddaru yn chwarterol. Byddai cynnydd yn erbyn y mesurau blynyddol o fewn Cynllun y Cyngor yn cael eu casglu o fewn Adroddiad Perfformiad Diwedd y Flwyddyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y lefelau o gynnydd a hyder o ran cyflawni'r blaenoriaethau a fanylwyd yng Nghynllun y Cyngor 2023/28 i'w cyflawni o fewn 2023/24 yn cael eu cymeradwyo a'u cefnogi;

(b) Bod y perfformiad cyffredinol yn ôl mesurau/dangosyddion perfformiad Cynllun y Cyngor 2023/24 yn cael ei gymeradwyo a'i gefnogi; a

(c) Bod y Cabinet yn cael sicrwydd drwy'r eglurhad a roddwyd ar gyfer y meysydd hynny sy'n tangyflawni.

**104. STRATEGAETH ARCHWILIO TIR HALOGEDIG WEDI'I DIWEDDARU**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr adroddiad ac eglurodd fod y Strategaeth Archwilio Tir Halogedig yn disgrifio sut roedd yn ofynnol i Gyngor Sir y Fflint drwy Ran 2A o'r Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990 nodi ac archwilio tir o fewn ei reolaeth gweinyddu ac eglurodd y camau y bydda'r Cyngor yn eu cymryd i archwilio'r tir i sicrhau bod tir halogedig yn cael ei adfer.

Roedd Strategaeth Archwilio Tir Halogedig Cyngor Sir y Fflint wedi cael ei diweddaru yn 2023 i adlewyrchu polisïau ac amcanion presennol y Cyngor a disodli prif ddarn o ganllawiau rheoleiddio sy'n ymwneud ag asesu tir halogedig.

Roedd yr adroddiad yn egluro diben y Strategaeth a'r diweddariadau a wnaed.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei ystyried mewn cyfarfod diweddar o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi ac roedd y sylwadau a dderbyniwyd wedi eu hadlewyrchu yn y strategaeth a ddiweddarwyd a gyflwynwyd i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y diweddariadau i'r Strategaeth Archwilio Tir Halogedig yn cael eu cymeradwyo.

**105. CYNNYDD AR BROSIECT ARCHIF GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU (AGDdC)**

Roedd y Cynghorydd Roberts wedi cyflwyno'r adroddiad ac egluro er mwyn cynyddu effaith y gwasanaethau archif yn ein cymunedau ac ymestyn eu cyrhaeddiad ar draws Sir y Fflint a Sir Ddinbych a mynd i'r afael â phrif ddiffygion yn yr adeiladau archif presennol ym Mhenarlâg a Rhuthun, roedd Cynghorau Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn rhannu uchelgais i adeiladu cyfleuster archif o'r radd flaenaf, newydd ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru ar gampws Neuadd y Sir, ger Theatr Clwyd.

Byddai'r cyfleuster yn dod â chasgliadau Sir y Fflint a Sir Ddinbych at ei gilydd mewn un lleoliad. Byddai'r adeilad newydd hefyd yn gweithredu fel canolbwynt mewn model o weithredu trwy bwynt canolog, a fyddai'n darparu mynediad digidol i'r deunyddiau archif drwy bwyntiau mynediad mewn llyfrgelloedd ac adeiladau cyhoeddus eraill i ehangu cyfranogiad ar draws Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

Eglurodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod AGDdC, gyda chefnogaeth y ddau Gyngor, wedi cyflwyno cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ym mis Chwefror 2021 ac roedd wedi colli allan o fewn trwch blewyn o dderbyn cyllid. Nid oedd yna unrhyw adborth negyddol ar gynnwys ac ansawdd y cais, ac roedd cais newydd wedi'i annog. Roedd y cais am grant wedi cael ei gyflwyno ac erbyn Mawrth 2024 byddai'r Cyngor yn gwybod pa un a fyddai wedi derbyn arian grant ai peidio.

Roedd symud i un adeilad yn galluogi AGDdC i gyfuno a gwneud y defnydd gorau o'i
adnoddau, yn diogelu'r gwasanaethau archif yn y ddau Gyngor ac yn galluogi'r Cyngor i gyflawni cynllun gweithgaredd cyffrous a fyddai'n cyflwyno archifau i gynulleidfa ehangach a mwy amrywiol, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i les ac addysg ein preswylwyr.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cyflwyno cais am grant pellach i NLHF Cymru am £7.336m gan Wasanaeth Archif Gogledd Ddwyrain Cymru (AGDdC) ar 15 Tachwedd 2023 i gael ei nodi;

(b) Bod canlyniad y cais am grant a fyddai'n hysbys erbyn diwedd Mawrth 2024 yn cael ei nodi ac os byddai'r cais a'r prosiect yn llwyddiannus, yna bydd y model darparu gwasanaeth yn gwbl weithredol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2027-28; a

(c) Bod yr heriau a wynebir gan y prosiect ers 2021 a'r datblygiadau parhaus, gan gynnwys effaith costau posibl y prosiect yn sgil pwysau chwyddiant yn amodau'r farchnad bresennol.

## 106. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2023/24 (MIS 8)

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad a oedd yn rhoi'r trosolwg manwl cyntaf i Aelodau am sefyllfa monitro cyllideb Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, a chyflwynodd y sefyllfa, yn seiliedig ar incwm a gwariant gwirioneddol ym Mis 8.

Roedd y sefyllfa a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

**Cronfa'r Cyngor**
- Roedd y diffyg gweithredol o £2.942m a oedd yn symudiad ffafriol o £0.728m o'r ffigwr diffyg a adroddwyd ym Mis 7
- Balans wrth gefn at raid ar 31 Mawrth 2024 o £4.918 miliwn (ar ôl union effaith dyfarniadau cyflog a chan ystyried dyraniadau a gymeradwywyd yn flaenorol)

**Y Cyfrif Refeniw Tai**
- Rhagwelir y bydd gwariant refeniw net yn ystod y flwyddyn £0.018 miliwn yn uwch na'r gyllideb a oedd yn symudiad cadarnhaol o £0.118 miliwn o'r ffigwr a adroddwyd ym Mis 7
- Rhagwelwyd y byddai'r balans terfynol ar 31 Mawrth 2024 yn £3.297 miliwn.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod y rhagolygon economaidd yn parhau'n heriol gan fod lefelau chwyddiant yn parhau i fod yn uchel. Roedd effeithiau hynny, ynghyd â'r cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau, yn dod yn fwyfwy anodd ymdrin â nhw wrth i gyllid y Cyngor fethu â chadw i fyny â maint y pwysau hynny.

I gynorthwyo i reoli'r risgiau hynny a lliniaru'r gorwariant amcanol

cyffredinol, roedd moratoriwm ar wariant heb ei ymrwymo'n gytundebol wedi'i roi mewn lle gyda phroses rheoli swyddi gwag oedd yn parhau.

Hyd at Fis 8, roedd £1.293m o wariant gohiriedig a/neu hwyr wedi'i nodi ac roedd wedi'i ddadansoddi gan y gwasanaeth o fewn Atodiad 2. Byddai her gadarn llinellau ac ymrwymiadau'r gyllideb yn parhau, a byddai diweddariadau pellach yn cael eu darparu mewn adroddiadau yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad a'r effaith ariannol a amcangyfrifir ar gyllideb 2023/24.

**107. DIWYGIO TRETH Y CYNGOR – YMGYNGHORIAD CAM 2 LLYWODRAETH CYMRU**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am ymgynghoriad cam 2 Llywodraeth Cymru i'r Aelodau yn ceisio barn ar raglen barhaus diwygio treth y cyngor. Roedd cynigion cam 2 yn canolbwyntio ar:

- Graddfa a chyflymdra diwygiadau bandio/ail-werthuso treth y cyngor posibl.
- Diwygio eithriad treth y cyngor Dosbarth F ar gyfer eiddo oedd yn wag ble roedd y preswylydd blaenorol wedi marw ac nid oedd unrhyw warant profiant na llythyrau gweinyddu wedi eu cyflwyno.
- Eglurder am y termau a meini prawf priodol ar gyfer eithrio treth y cyngor Dosbarth U ar gyfer aelwydydd ble roedd y meddiannydd wedi'i dystio i fod â salwch meddwl difrifol'.

Roedd y Rheolwr Refeniw a Chaffael wedi darparu manylion llawn ar gyfer y dewisiadau oedd ar gael.

Eglurodd y Cynghorydd Healey fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yr wythnos flaenorol ble roeddent yn cefnogi'r fersiwn estynedig a'i weithredu gynted â phosibl. Roedd yn symud newid i'r argymhelliad ar gyfer cefnogi'r fersiwn estynedig ond gyda dull graddol, oedd yn cael ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod cynigion Llywodraeth Cymru (cam 2) i ddiwygio Treth y Cyngor yn cael eu nodi, a bod uwch swyddogion yn cael eu hawdurdodi i ymateb i'r ymgynghoriad i argymell y fersiwn estynedig a'i roi ar waith fesul cam.

**108. POLISI GOLEUADAU STRYD 2023-2028**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hughes yr adroddiad ac eglurodd mai'r tro diwethaf i'r polisi gael ei adolygu oedd yn 2015 pan gafodd y safonau eu diwygio ar gyfer atgyweirio diffygion goleuadau stryd ac roedd amlder archwiliadau min nos wedi eu hadolygu, yn ogystal â chynnwys darpariaeth ar gyfer goleuadau dros dro a gostwng goleuadau.

Roedd y polisi drafft yn cynnwys y cyfrifoldebau, y gofynion a'r safonau ar gyfer holl oleuadau priffyrdd cyhoeddus allanol newydd ac wedi'i anelu i gynnwys, ble bynnag bo hynny'n ymarferol, holl godau ymarfer a deddfwriaeth perthnasol, ynghyd ag arfer gorau a pholisïau cenedlaethol.

Roedd y polisi diwygiedig a gyflwynir i'w ystyried gyda'r adroddiad yn cymryd i ystyriaeth seilwaith trydanol ychwanegol, fel gwefru cerbyd trydan, arwyddion a ysgogir gan gerbydau a diffibrilwyr.

Roedd yr adroddiad wedi'i ystyried yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Economi a'r Amgylchedd diweddar ac roedd eu sylwadau wedi eu cynnwys yn y ddogfen.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Roberts, cadarnhaodd Rheolwr Gweithredol y Gogledd a Goleuadau Stryd bod y trefniadau gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar allu talu tuag at gadw goleuadau ymlaen yn parhau yr un fath.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod perfformiad y portffolio yn erbyn y safonau a pholisi presennol yn cael ei nodi; a

(b) Bod y polisi Goleuadau Stryd diwygiedig yn cael ei gefnogi.

## 109. COFEBION ANNIOGEL YM MYNWENTYDD SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Cynghorydd Hughes yr adroddiad ac eglurodd bod y gwasanaeth yn gyfrifol am tua 20,000 o gerrig beddi neu gofebion o amrywiaeth o siapiau a meintiau ac roedd yna ddyletswydd ar y Cyngor i gynnal a chadw'r tir claddu mewn cyflwr da a diogel.

Roedd cyfuniad o absenoldeb cofnodion a/neu absenoldeb aelodau o'r teulu oedd wedi goroesi ac yn fodlon ymgymryd â'r gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ar gofebion wedi arwain at oddeutu 700 o gofebion o fewn mynwentydd Sir y Fflint yn cael eu hystyried yn anniogel yn strwythurol. Er bod y cofebion hynny yn parhau i gael eu cefnogi gan bolion pren, roedd angen gweithredu datrysiad parhaol. Yn ogystal â chofebau anniogel, roedd ymylfaen o fewn mynwentydd hŷn y cyngor hefyd mewn cyflwr gwael, gan arwain at y posibilrwydd o berygl baglu.

Diben yr adroddiad oedd ceisio cefnogaeth a chymeradwyaeth ar gyfer dull amgen a pharhaol o wneud y cofebion yn ddiogel, os na fyddai'r gofeb yn cael ei atgyweirio gan y perchennog bedd cofrestredig, yn ogystal â gwneud unrhyw ymylfaen oedd yn rhydd o brif strwythur y bedd yn ddiogel.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y cynnig i fabwysiadu y dull "tyllu i mewn" i sefydlogi'r cofebau hynny a ystyriwyd oedd yn anniogel yn strwythurol pan na ellir olrhain perchnogion y bedd yn cael ei gefnogi. Bydd y dull hwn yn mynd i'r afael

â risg iechyd a diogelwch parhaus sy'n gysylltiedig â chofebau anniogel sydd ond yn cael eu trwsio dros dro ar hyn o bryd; a

(b) Bod y cynnig i fynd i'r afael ag ymylfaen anniogel drwy ailosod pob rhan o'r ymyl o fewn strwythur y bedd - naill ai uwchlaw neu islaw'r wyneb yn dibynnu a oes yna sylfaen slab concrid yn cael ei gefnogi.

## 110. ADOLYGU FFIOEDD GWASANAETH LARWM

Cyflwynodd y Cynghorydd Bibby yr adroddiad ac eglurodd o fewn stoc dai y Cyngor (CRT) roedd yna 2592 o unedau llety tai gwarchod. Yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth warden yn 2009 roedd y gwasanaeth hwn wedi dod i ben ac roedd y Gwasanaeth Cefnogi Llety yn y Gymuned wedi'i sefydlu. Roedd y gwasanaeth yn darparu gwasanaeth daliadaeth niwtral i unrhyw berson hŷn yn Sir y Fflint allai fod angen cefnogaeth sy'n ymwneud â thai.

Yn ogystal, roedd y gwasanaeth yn darparu gwasanaeth ymateb ar gyfer achosion o ganu larwm. Ar gyfer preswylwyr CRT, gwasanaeth 24 awr y dydd yw hwn, sydd yn gweithredu gwasanaeth tu allan i oriau o fewn y tîm ar gyfer gwaith y tu allan i oriau swyddfa (nosweithiau, min nos a phenwythnosau). Y cynnig a amlinellwyd yn yr adroddiad oedd gweithredu'r ffi gwasanaeth uwch i bob preswylydd llety gwarchod a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth larwm ar hyn o bryd. Byddai'r ffi yn cael ei gweithredu ar gyfer pob preswylydd newydd mewn cynlluniau llety gwarchod lle'r oedd larwm wedi'i osod, yn unol â'r broses bresennol ar ddechrau eu contract newydd.

Eglurodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) fod yr adroddiad yn darparu manylion am gynnig i gynyddu'r ffi gwasanaeth i bob preswylydd llety gwarchod a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth larwm ar hyn o bryd a byddai'r ffi gwasanaeth yn berthnasol i bob eiddo gwarchod o'r dyddiad gosod yn y dyfodol.

Roedd y cynnig yn cynrychioli cynnydd o £0.85 fesul wythnos galendr, neu wrth gyfrif dros gyfnod o 50 wythnos roedd yn cyfateb i £0.98 o gynnydd. Bydd hyn yn golygu y gellir adennill y costau llawn o 2024/2025 ymlaen a bydd y ffi yn cael ei adolygu'n flynyddol yn rhan o broses gynllunio busnes CRT i alinio costau i ffioedd gwasanaeth wrth symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi a chymeradwyo'r cynnig i adennill cost lawn gwasanaeth larwm y cyfrif refeniw tai.

## 111. POLISI RHEOLI TAI AC YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Bibby yr adroddiad ac eglurodd fod y Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rheoli tai effeithiol ac effeithlon oedd yn adlewyrchu arfer gorau, oedd yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth ac yn amddiffyn hawliau deiliaid contract yn ogystal â lleihau'r risg i'r Cyngor am beidio cydymffurfio gyda deddfwriaeth briodol.

Y Ddeddf Rhentu Tai (Cymru) 2016, a ddaeth i rym o'r 1af

Rhagfyr 2022, dyma'r newid mwyaf i gyfraith tai yng Nghymru ers degawdau. Roedd
ddeddfwriaeth newydd wedi newid y ffordd yr oedd pob landlord yng Nghymru yn rhentu eu heiddo.

Nod y Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yw symleiddio'r broses o rentu cartref yng Nghymru a rhoi mwy o wybodaeth i bartïon am eu hawliau a'u rhwymedigaethau. Roedd y Ddeddf mewn grym yn rhannol bellach, at ddibenion gwneud rheoliadau a chyhoeddi canllawiau.

Roedd cyflwyno'r newidiadau sylweddol a ddaeth yn sgil y Ddeddf yn golygu bod angen adolygu a drafftio polisïau a gweithdrefnau diwygiedig. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Polisi Rheoli Tai a'r Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Roedd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) yn egluro yr adroddwyd ar y polisi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Thai ddwywaith ac roedd y sylwadau a dderbyniwyd ar faterion penodol. Roedd sylwadau ar y polisi yn ymwneud â chanllawiau gweithdrefnol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y polisïau Rheoli Tai ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael eu cymeradwyo.

## 112. BRYN Y BEILI, YR WYDDGRUG

Cyflwynodd y Cynghorydd Healey yr adroddiad ac eglurodd fod gofod gwyrdd Bryn y Beili, Yr Wyddgrug yn eiddo i'r Cyngor yng nghanol yr Wyddgrug ac roedd yn cynnwys gweddillion Castell Yr Wyddgrug.

Wedi gordyfu a heb ei ddefnyddio lawer yn flaenorol, roedd y safle wedi ei adfer yn adnodd cymunedol gwerthfawr drwy bartneriaeth teiran rhwng y Cyngor, Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyfeillion Bryn y Beili.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r prosiect sydd wedi cael ei gynnal. 1.05

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi, lle roedd y trafodaethau wedi canolbwyntio ar oblygiadau adnoddau. Ar hyn o bryd Cyngor Tref Yr Wyddgrug oedd yn gyfrifol am y costau. Byddai angen adolygu hynny a dosbarthu'r costau yn fwy teg.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi llwyddiant cwblhau'r datblygiad ym Mryn y Beili yn Yr Wyddgrug.

## 113. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR YR ADOLYGIAD O'R RHWYSTR MYNEDIAD

Cyflwynodd y Cynghorydd Healey yr adroddiad ac eglurodd fod Cyngor Sir y Fflint wedi penodi ymgynghorydd i gynnal adolygiad o'r mesurau rheoli mynediad presennol ar waith ar adran o Lwybr Arfordir Cymru (LlAC) rhwng Caer a Queensferry.

Roedd argymhellion o astudiaeth yr ymgynghorydd wedi eu trafod yn Sir y Fflint.
Fforwm Mynediad Lleol, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a'r Amgylchedd a'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2023. Y penderfyniad yn y Cabinet oedd i gael adborth pellach gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid pan gafodd dyluniadau gweithredu eu sefydlu.

Roedd Cynllun a manyleb wedi eu llunio ar gyfer pwyntiau mynediad ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru o amgylch ardal pont droed Saltney ac anfonwyd allan ar gyfer adborth yn ystod mis Hydref.
Roedd crynodeb o ymatebion ynghlwm i'r adroddiad.

Roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi wedi ystyried yr adborth ar 19 Rhagfyr ble roedd y cynigion wedi eu cefnogi gan y mwyafrif.

Roedd y dewis a gyflwynwyd yn amlygu'r cyfleoedd a'r risgiau i'r Awdurdod.

Roedd y Cynghorwyr Bibby a Jones yn croesawu'r adroddiad a'r gwelliannau arfaethedig a oedd yn darparu cyfaddawd pragmatig.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr adborth ar y gwelliannau mynediad bwriedig a'r risgiau posibl i'r Awdurdod yn cael eu nodi; a

(b) Bod y gwelliannau bwriedig i'r pwyntiau mynediad fel y manylwyd yn y cynllun a'r fanyleb yn cael eu cymeradwyo.

## 114. ARFER PWERAU DIRPRWYEDIG

Cafodd eitem er gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig
ei chyflwyno. Roedd y camau gweithredu wedi eu nodi isod:-

**Tai a Chymunedau**

- **Cyngor Sir y Fflint - Prince's Street, Primrose Street, Stryd y Capel, Dodd's Drive a Summersville Close, Cei Connah - Cynnig i Wahardd Aros a Chyfyngiadau Aros ar Unrhyw Adeg**
  Hysbysu'r Aelodau o'r materion heb eu datrys a gafwyd yn dilyn hysbysebu'r cynnig i Wahardd Aros ar Unrhyw Adeg ar y ffyrdd a restrir uchod.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd paragraff(au) 14 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

## 115. ADOLYGIAD CONTRACT FFLYD

Cyflwynodd y Cynghorydd Hughes yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Contract Fflyd.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi yr wythnos flaenorol lle cafodd yr argymhellion eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y wybodaeth ddiweddaraf ar y contract fflyd yn cael ei nodi gan gynnwys bod y wybodaeth ddiweddaraf wedi'i darparu i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi yr wythnos flaenorol;

(b) Bod y dewis a ffefrir i ddod â'r gweithrediadau fflyd a rheoli yn ôl yn fewnol i sicrhau parhad di-dor y gwasanaeth hanfodol hwn i gael ei gefnogi; a

(c) Estyniad tymor byr pellach gyda'r cyflenwr presennol am ddim mwy na 12 mis i ganiatáu amser i'r Cyngor drefnu darpariaeth amgen i gael ei gymeradwyo.

## 116. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD HEFYD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.48am)

**…………………………..**

**Y Cadeirydd**